**Amodau a Thelerau ar gyfer digwyddiad noson ganoloesol ddieflig | Castell Ystumllwynarth**

- Ni chaiff pobl ddod i'r digwyddiad os bydd stiwardiaid yn tybio bod rhywun dan ddylanwad alcohol neu sylwedd anghyfreithlon.
- Rhaid i blant dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn.
- O ran diogelwch, peidiwch â dod ag eitemau gwydr, canhwyllau na ffaglau wedi'u cynnau.
- Bydd y profiad yn cynnwys goleuadau strôb/laser, peiriannau mwg, lleoedd bach gydag ychydig iawn o olau, lloriau anwastad (gwisgwch esgidiau addas), rhai grisiau serth a choridorau cul oherwydd natur y lleoliad, effeithiau aroglau, synau/cerddoriaeth arswydus ac actorion byw.
- Mae Cyngor Abertawe yn cadw’r hawl i wrthod mynediad i unrhyw berson yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, mewn amgylchiadau o'r fath, ni roddir ad-daliadau.
- Mae Cyngor Abertawe'n cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau i'r manylion a hysbysebir ar gyfer y digwyddiad.
- Mae deiliaid tocynnau'n rhyddhau'r trefnwyr (Cyngor Abertawe/Cyfeillion Castell Ystumllwynarth) o unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i eiddo personol a allai ddeillio o'r digwyddiad. Ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ni fydd unrhyw atebolrwydd ar y trefnwyr i ddeiliaid tocynnau.
- Ni chaiff tocynnau eu gwerthu (gan gynnwys ocsiwn) na'u hysbysebu i'w gwerthu. Ni ellir defnyddio tocynnau at ddibenion hysbysebu, hyrwyddo, codi arian na marchnata (gan gynnwys mewn cystadlaethau ac mewn swîps).
- Mae deiliaid tocynnau yn deall y gall y trefniadau ar gyfer y digwyddiad gael eu heffeithio gan amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr, a all arwain at oedi, gohirio neu ganslo'r digwyddiad heb rybudd, ni fydd gan y trefnwyr unrhyw atebolrwydd i ddeiliaid tocynnau o ran y fath oedi, ohirio neu ganslo.
- Os caiff digwyddiad ei ganslo gan y trefnydd, er nad yw hyn yn debygol, bydd tocynnau'n cael eu had-dalu o'r ffynhonnell brynu yn ôl eu hwynebwerth. Ni roddir ad-daliadau mewn perthynas â ffïoedd archebu.
- Mae deiliaid tocynnau'n rhoi caniatâd i gael eu ffilmio, i gael eu lluniau wedi tynnu a'u recordio ac yn deall efallai y gallai ffotograffau, ffilmiau neu recordiadau gael eu darlledu, eu cyhoeddi, eu trwyddedu neu eu defnyddio am byth (heb daliad).
- Mae deiliaid tocynnau'n cytuno y bydd unrhyw ddelweddau, fideos neu recordiadau sain a geir yn y digwyddiad yn cael eu defnyddio at ddibenion preifat a domestig yn unig ac ni allant gael eu defnyddio at unrhyw ddibenion masnachol, ar y rhyngrwyd neu fel arall.

- Ni all deiliaid tocynnau gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd y mae trefnwyr yn ystyried ei bod yn ymwneud â marchnata neu hysbysebu anawdurdodedig (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, marchnata unigol neu grŵp). Mae gan y trefnydd yr hawl i wrthod mynediad, neu i ofyn i rywun adael y lleoliad os nad yw'n cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn.

**Polisi Tywydd Gwlyb ar gyfer digwyddiad noson ganoloesol ddieflig yng Nghastell Ystumllwynarth**

Yn gyffredinol, ni fydd glaw yn atal sesiynau gan fod gweithgareddau'n cael eu cynnal yn bennaf mewn ardaloedd dan do; byddant yn mynd yn eu blaenau yn ôl yr amserlen

Fodd bynnag, cynghorir yr holl ddeiliad tocyn i ddarparu ar gyfer tywydd gwlyb a gwisgo dillad ac esgidiau addas.

Bydd sesiwn ond yn cael ei chanslo os bydd amodau'r tywydd, ym marn y trefnwyr, yn peryglu iechyd a diogelwch.

Os caiff digwyddiad ei ganslo, er nad yw hyn yn debygol, caiff gwybodaeth ei phostio ar:

- Wefannau'r digwyddiad yn www.abertawe.gov.uk/castellystumllwynarth a www.joiobaeabertawe.com
- Ar Facebook www.facebook.com/castellystumllwynarth a www.facebook.com/joiobaeabertawe